

2,4-dinitroffenol (DNP)

Peryglon pils deiet DNP a rôl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd wrth leihau'r risg i iechyd y cyhoedd.

Mae 2,4-dinitrophenol (DNP) yn gemegyn diwydiannol hynod wenwynig. Yn ddiweddar, mae DNP wedi cael ei werthu'n anghyfreithlon fel pilsen sy'n arwain at golli pwysau. Mae DNP yn wenwynig i bobl a gall arwain at farwolaeth, yn ogystal â sgil-ffeithiau corfforol difrifol eraill.

Mae'n drosedd gwerthu DNP i'w fwyta gan bobl yn y Deyrnas Unedig (DU). Gall y rhai sy'n gwerthu DNP gael eu herlyn o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Gall cosb gynnwys dedfrydau hir o garchar.

Peryglon iechyd DNP

Gall effeithiau pils deiet DNP fod yn drychinebus ac achosi niwed difrifol i iechyd. Mae cymryd DNP wedi arwain at nifer sylweddol o farwolaethau yn y DU.

Mae sgil-ffeithiau eraill DNP yn cynnwys:

- teimlo'n gyfogyd
- chwydu
- aflonyddwch
- croen yn coch
- chwysu
- teimlo'n benysgafn
- cur pen
- anadlu'n gyflym
- curiad calon afreolaidd.

Gall cataractau a niwed i'r croen hefyd ddatblygu, yn ogystal â niwed i'r galon a'r system nerfol.

Os ydych chi wedi cymryd DNP, cysylltwch â meddyg neu weithiwr proffesiynol meddygol yn syth.

Gwerthu DNP fel pilsen deiet

Mae gwerthu DNP i'w fwyta gan bobl yn anghyfreithlon.

Powdwr melyn yw DNP, fel arfer wedi'i wneud ar ffurf tabled neu gapsiwl. Fe ellir gwerthu DNP ar wefan, trwy gyfrif cyfryngau cymdeithasu, mewn siop atchwanegiadau bwyd neu gan bobl yn y gampfa.

Mae rhai pobl yn credu y bydd cymryd DNP yn gwella eu hymddangosiad corfforol neu'n arwain at golli pwysau, ond nid yw hyn yn wir. Gall gwerthwyr hysbysebu ei ddefnydd ar gam, er eu bod yn ymwybodol o'i effeithiau peryglus.

Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae [Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd \(NFCU\)](#) yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'i phartneriaid gorfodi'r gyfraith yn trin marchnata a gwerthu DNP i'w fwyta gan bobl yn ddifrifol.

Mae gwerthwyr DNP wedi'u herlyn yn llwyddiannus am droseddau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a gallant o bosibl wynebu cyhuddiadau troseddol a allai fod yn fwy difrifol. Gall pobl sy'n gwerthu DNP wynebu dedfrydau carchar hir.

Rhowch wybod am unrhyw un sy'n gwerthu DNP ar unwaith i'r heddlu lleol, yr awdurdod lleol, [Taclor Tacle \(Crimestoppers\)](#), neu trwy'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.